**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026, a Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a’r Blynyddoedd Cynnar ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026, a Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu) (Cymru) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
27 Ionawr 2026

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

**Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026**

1.1 Mae Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 yn cyflwyno cyfres o ddiwygiadau wedi'u targedu i ddwy set bresennol o reoliadau:

- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 (“Rheoliadau 2019”), a
- Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 (“Rheoliadau 2005”).

1.2 Gwneir y diwygiadau hyn o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (“Deddf 2002”).

1.3 Diben yr offeryn yw egluro a moderneiddio'r fframwaith rheoleiddio sy'n llywodraethu gwasanaethau mabwysiadu a gwasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru. Ei nod yw sicrhau bod y diffiniadau a'r cyfrifoldebau cyfreithiol yn adlewyrchu'r arferion presennol, yn cefnogi cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau, ac yn cael gwared ar amwysedd wrth ddehongli termau a darpariaethau allweddol.

1.4 Mae'r offeryn yn cyflwyno'r newidiadau a ganlyn:

**Estyn yr esemptiad presennol rhag cofrestru ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu sy'n darparu gwasanaethau cymorth o dan gontract**
Ar hyn o bryd, nid yw gwasanaethau cymorth mabwysiadu a ddarperir gan unigolyn o dan gontract gyda gwasanaeth mabwysiadu cofrestredig neu awdurdod lleol yn dod o fewn y diffiniad o “wasanaeth mabwysiadu” at ddibenion rheoleiddio. Mae diwygiad i Reoliadau 2019 yn estyn hyn i olygu bod y gwasanaethau hynny a ddarperir gan bartneriaethau a chyrff corfforedig o dan gontract hefyd yn esempt.

**Esemptiad rhag cofrestru ar gyfer darparu cwnsela mewn perthynas â mabwysiadu i oedolion**

Mae esemptiad ychwanegol yn cael ei gyflwyno i Reoliadau 2019 ar gyfer darparu cwnsela mewn perthynas â mabwysiadu i oedolion (18 oed a hŷn). Ni fydd angen cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

**Eglurder o ran cwmpas gwasanaethau rhagnodedig, cymhwystra ehangach a diweddariadau i'r derminoleg**

Mae'r diwygiadau i Reoliadau 2005 fel a ganlyn:

- **Moderneiddio'r derminoleg** drwy ddisodli cyfeiriadau at "rhiant naturiol" gyda "rhiant geni" ac yn yr un modd gydag ymadroddion tebyg. Er nad yw Deddf 2002 yn diffinio "naturiol" yn benodol mewn perthynas â pherthnasoedd teuluol, deallir ei ystyr yn gyffredinol o gyd-destun Deddf 2002. Er mwyn cefnogi'r newid hwn mewn terminoleg a rhoi eglurder, mae'r offeryn yn cyflwyno diffiniad o "rhiant geni" i Reoliadau 2005. Mae'r term hwn i'w ddehongli yn yr un modd â "rhiant naturiol" o dan Ddeddf 2002, ac mae cyfeiriadau eraill at berthnasoedd drwy enedigaeth i'w dehongli yn unol â hynny.

- **Estyn cymhwystra ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu penodol** i gynnwys cyn-warcheidwaid plentyn mabwysiadol, gan gydnabod natur esblygol strwythurau teuluol a phwysigrwydd cymorth cynhwysol. Mae diffiniad Deddf 2002 o "guardian" ("gwarcheidwad") yn gymwys i Reoliadau 2005 yn rhinwedd Deddf Dehongli 1978.

- **Egluro cwmpas gwasanaethau cymorth mabwysiadu penodol** a ragnodir yn rheoliad 3 o Reoliadau 2005. Mae hyn yn cynnwys pennu bod rhaid i ofal seibiant sy'n cynnwys llety gael ei ddarparu o dan ddarpariaethau statudol penodol iddo fod yn gymwys fel gwasanaeth cymorth mabwysiadu.

- **Gwneud diwygiadau canlyniadol** i ddiweddaru croesgyfeiriadau, gan sicrhau cysondeb ac eglurder cyfreithiol ar draws y rheoliadau.

**<u>Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu) (Cymru) 2026</u>**

1.5 Gwneir Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu) (Cymru) 2026 gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddir gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019.

1.6 Nod yr offeryn, sy'n dirymu ac yn disodli Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019, yw:

- **Rhagnodi gwasanaethau cymorth mabwysiadu ychwanegol**
  Mae adran 2(6) o Ddeddf 2002 yn diffinio “adoption support services” (“gwasanaethau cymorth mabwysiadu”) fel cwnsela, cyngor a gwybodaeth, ac unrhyw wasanaethau eraill a ragnodir gan reoliadau, mewn perthynas â mabwysiadu.
  Mae gwasanaethau cymorth mabwysiadu penodol a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, fel rhan o'r gwasanaeth y maent yn ei gynnal o dan Ddeddf 2002, eisoes wedi'u rhagnodi yn *Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005* at ddibenion adran 2(6) o Ddeddf 2002. Yn ogystal, rhagnodir gwasanaeth cyfryngol yn wasanaeth cymorth mabwysiadu yn *Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadu Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005* at ddibenion Deddf 2002. Mae'r offeryn hwn yn rhagnodi gwasanaethau cymorth mabwysiadu ychwanegol at ddibenion y diffiniad yn adran 2(6), ac sy'n ddarostyngedig i ofynion cofrestru a gofynion rheoleiddiol yng Nghymru oni bai eu bod yn esempt fel arall. Mae'r gwasanaethau hyn a ddarperir gan asiantaethau cymorth mabwysiadu yn cynnwys ymyriadau therapiwtig, cymorth gyda threfniadau cyswllt, hyfforddiant i rieni mabwysiadol, gofal seibiant, a chyfryngu pan fo tarfu ar leoliadau.

- **Egluro bod gwasanaethau a ragnodir yn ddarostyngedig i ofynion rheoleiddiol o dan Ddeddf 2016**
  Mae adran 8(1) o Ddeddf 2002 yn diffinio “adoption support agency” (“asiantaeth cymorth mabwysiadu”) fel ymgymeriad, a diben yr ymgymeriad hwnnw, neu un o'i ddibenion, yw darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Yng Nghymru, rhaid i asiantaethau cymorth mabwysiadu fod wedi'u cofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf 2016 i ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu rhagnodedig. Mae'r offeryn hwn yn rhagnodi gwasanaethau cymorth mabwysiadu at y diben hwnnw, gan sicrhau cydymffurfiaeth â safonau ansawdd a diogelwch wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.

- **Cefnogi personau mabwysiadol a'u perthnasau**
  Mae'r offeryn yn rhagnodi cynhorthwy i bersonau mabwysiedig 18 oed a hŷn a'u perthnasau i gael gwybodaeth ac i hwyluso cyswllt fel gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

- **Sefydlu diffiniadau**

Mae'r offeryn yn sefydlu diffiniadau clir ar gyfer termau fel plentyn mabwysiadol, rhiant mabwysiadol, person perthynol a gwarcheidwad i sicrhau y cânt eu defnyddio'n gyson.

- **Gwneud diwygiadau canlyniadol**
  Er mwyn cynnal cysondeb, gwneir diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o ddirymu Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019 i ddeddfwriaeth gysylltiedig.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

**Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026**

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddir iddynt gan adrannau 2(3) a 187(1)(b) o Ddeddf 2016 ac adrannau 2(6)(b), 3(3)(a) a 4(b), a 142(4) a (5)(a) o Ddeddf 2002.

3.2 Mae'r diwygiadau i Reoliadau 2005 yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd yn rhinwedd adran 140 o Ddeddf 2002, paragraff 5 o Atodlen 1A i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 a pharagraffau 30 a 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006").

3.3 Mae'r diwygiadau i Reoliadau 2019 yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn rhinwedd adran 187(2)(b) o Ddeddf 2016 a pharagraff 3 o Atodlen 1A i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

3.4 Felly, gwneir y Rheoliadau hyn gan ddefnyddio gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn unol ag adran 37G(2) a (3)(a) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cyfuno offerynnau sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y Senedd.

**Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu) (Cymru) 2026**

3.5 Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddir iddynt gan adrannau 2(6)(b), 140(7), a 142(4) a (5)(a) o Ddeddf 2002. Fe'u gwneir o dan weithdrefn annilysu'r Senedd yn rhinwedd adran 140 o Ddeddf 2002, paragraff 5 o Atodlen 1A i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 a pharagraffau 30 a 34 o Atodlen 11 i Ddeddf 2006.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru yn hygyrch, yn gymesur ac yn ymatebol i anghenion plant, oedolion a theuluoedd yr effeithir arnynt gan fabwysiadu. Yr amcan polisi cyffredinol yw cael gwared ar rwystrau rheoleiddiol diangen sy'n cyfyngu ar fynediad at gymorth, gan gynnal mesurau diogelu priodol ac ansawdd gwasanaethau.

4.2 Nod Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026, ynghyd â Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu) (Cymru) 2026, yw:

- Egluro a moderneiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu.
- Sicrhau bod y gofynion rheoleiddiol yng Nghymru yn cyd-fynd â'r rhai yn Lloegr i gefnogi lleoliadau a chysondeb trawsffiniol.
- Gwella mynediad at wasanaethau cwnsela a therapiwtig i oedolion yr effeithir arnynt gan fabwysiadu.
- Lleihau beichiau gweinyddol ar ddarparwyr sy'n gweithredu o dan gontractau awdurdod lleol.
- Sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn adlewyrchu'r arferion presennol a'i bod yn haws ei dehongli a'i chymhwyso.

4.3 Mae'r fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru yn cyflwyno nifer o heriau, a nod y ddeddfwriaeth arfaethedig yw mynd i'r afael â'r rhain. Mae oedolion yr effeithir arnynt gan fabwysiadu, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu mabwysiadu, rhieni geni, a rhieni mabwysiadol, yn aml yn wynebu anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau cwnsela a therapiwtig. Mae hyn yn bennaf oherwydd y gofyniad i ddarparwyr gofrestru gydag AGC, sydd wedi lleihau nifer y gweithwyr proffesiynol sydd ar gael i gynnig cymorth o'r fath.

4.4 Yn ogystal, er bod darparwyr unigol sy'n darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu o dan gontract gydag awdurdodau lleol neu wasanaethau mabwysiadu cofrestredig yn esempt rhag cofrestru, nid yw partneriaethau a chyrff corfforedig yn esempt. Mae'r anghysondeb hwn yn creu dryswch ac yn ychwanegu baich gweinyddol diangen.

4.5 Mae rhywfaint o orgyffwrdd ac anghysondeb hefyd rhwng y gwasanaethau cymorth mabwysiadu rhagnodedig yn Rheoliadau 2005 a Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019, a all greu heriau i ddarparwyr a chomisiynwyr wrth benderfynu i ba raddau y mae'r ddwy set hyn o reoliadau yn gymwys i wasanaethau mabwysiadu awdurdod lleol a gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2016.

4.6 Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig (a dirymu Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019) yn cyflwyno nifer o welliannau i fynd i'r afael â'r materion hyn. Bydd hyn yn golygu bod gwasanaethau sy'n darparu cwnsela mewn perthynas â mabwysiadu i unigolion 18 oed a hŷn yn esempt rhag y gofyniad i gofrestru gydag AGC, gan wella mynediad at ofal a pharhad gofal. Bydd hefyd yn estyn yr esemptiad presennol rhag y gofyniad i gofrestru i unigolion, partneriaethau a chyrff corfforedig sy'n darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu o dan gontract gydag awdurdodau lleol neu wasanaethau mabwysiadu cofrestredig. Bydd y ddeddfwriaeth yn egluro diffiniadau ac yn diweddaru'r derminoleg, megis disodli “rhiant naturiol” gyda “rhiant geni”, ac yn sicrhau cysondeb rhwng y rhestrau rheoleiddiol o wasanaethau rhagnodedig ar draws y fframwaith rheoleiddio i gael gwared ar ddyblygu a gwella eglurder. Mae'r newidiadau hyn wedi'u cynllunio i leihau biwrocratiaeth, gwella mynediad at wasanaethau, a sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio yn gymesur ac yn addas i'r diben.

4.7 Bydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith gadarnhaol ar sawl grŵp. Bydd oedolion mabwysiedig, rhieni geni, a theuluoedd mabwysiadol yn elwa ar fynediad gwell at wasanaethau cwnsela a therapiwtig. Ni fydd cwnselwyr a therapyddion bellach yn wynebu'r rhwystr o gofrestru gydag AGC i ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu i oedolion. Bydd awdurdodau lleol ac asiantaethau mabwysiadu yn cael mwy o hyblygrwydd i gomisiynu gwasanaethau gan ystod ehangach o ddarparwyr. Bydd AGC yn elwa ar nifer llai o geisiadau cofrestru, gan ganiatáu iddi ganolbwyntio adnoddau ar wasanaethau risg uwch.

4.8 Os na wneir y ddeddfwriaeth, gall oedolion yr effeithir arnynt gan fabwysiadu barhau i wynebu rhwystrau i gael mynediad at gymorth hanfodol. Efallai y bydd darparwyr yn cael eu hannog i beidio â chynnig gwasanaethau oherwydd cymhlethdod a baich y broses gofrestru. Bydd yr anghysondebau yn y fframwaith rheoleiddio yn parhau, gan arwain at ddryswch ac achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio. Bydd Cymru hefyd yn parhau'n anghyson â Lloegr, gan gymhlethu o bosibl y gwaith o ddarparu lleoliadau a gwasanaethau trawsffiniol.

4.9 Bydd y ddeddfwriaeth yn galluogi gweithredu mwy effeithlon ar draws y sector drwy ddileu'r angen i gofrestru gydag AGC mewn trefniadau gwasanaeth risg isel, sy'n seiliedig ar gontract; lleihau oedi sy'n gysylltiedig â'r broses gofrestru; a chaniatáu i awdurdodau lleol gomisiynu gwasanaethau yn fwy hyblyg. Mae hefyd yn egluro diffiniadau cyfreithiol a gwasanaethau rhagnodedig, gan leihau'r angen am ddehongliad cyfreithiol neu ganllawiau ychwanegol.

4.10 Disgwylir i'r ddeddfwriaeth wella mynediad at gymorth yn sylweddol i unigolion yr effeithir arnynt gan heriau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu, gan gynnwys y rhai sy'n profi trawma neu wahanu. Bydd hefyd yn gwella gwasanaethau i deuluoedd mabwysiadol sydd angen cymorth therapiwtig neu gymorth mewn argyfwng, yn ogystal â rhieni geni a chyn-warcheidwaid sy'n aml wedi'u heithrio o'r fframweithiau presennol

ar gyfer cymorth ar ôl mabwysiadu. Drwy gael gwared ar rwystrau rheoleiddiol ac ehangu cymhwystra, mae'r ddeddfwriaeth yn hyrwyddo mwy o gynhwysiant a thegwch o ran mynediad at wasanaethau.

4.11 Mae'r is-ddeddfwriaeth yn gymwys i Gymru yn unig. Fodd bynnag, drwy sicrhau cysondeb â newidiadau diweddar yn Lloegr, mae'n cefnogi cysondeb ar draws ffiniau ac yn hwyluso trefniadau lleoli a chymorth mwy esmwyth i deuluoedd sy'n symud rhwng awdurdodaethau.

## 5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad deuddeg wythnos rhwng 4 Awst 2025 a 27 Hydref 2025 ar y newidiadau arfaethedig. Tynnwyd sylw ystod o randdeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, darparwyr maethu annibynnol, darparwyr maethu'r trydydd sector, asiantaethau mabwysiadu, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru.

5.2 Cafwyd 14 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mynegwyd cytundeb cyffredinol â'r holl gynigion, ac nid ystyriwyd bod angen unrhyw ddiwygiadau pellach.

5.3 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael **yma**

## RHAN 2: ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr opsiynau

6.1 Ystyriwyd dau opsiwn wrth ddadansoddi'r costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â'r heriau o fewn y fframwaith presennol ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru:

- Opsiwn 1: Gwneud dim (cadw'r fframwaith rheoleiddio presennol)

- Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau 2019 a Rheoliadau 2005 a dirymu a disodli Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019.

### Opsiwn 1: Gwneud dim

6.2 Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys cadw'r fframwaith rheoleiddio presennol heb gyflwyno unrhyw newidiadau neu reoliadau newydd. Byddai Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019 yn parhau i fod mewn grym, ynghyd â'r darpariaethau presennol yn Rheoliadau 2005 a Rheoliadau 2019, sy'n golygu y byddai'r diffiniadau, y gofynion cofrestru a'r meini prawf cymhwystra presennol yn parhau heb eu newid. Ni fyddai unrhyw ddiwygiadau canlyniadol yn cael eu gwneud, a byddai'r dull presennol o ragnodi gwasanaethau ar gyfer asiantaethau ac awdurdodau lleol yn aros fel y mae.

### Costau

6.3 Er nad oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, gall aneffeithlonrwydd a chymhlethdodau parhaus yn y system olygu bod darparwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu ac awdurdodau lleol yn mynd i gostau y gellir eu hosgoi, fel y rhai sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â gofynion rheoleiddiol, rheoli contractau a dyblygu ymdrechion. Gall argaeledd cyfyngedig darparwyr cofrestredig orfodi awdurdodau i gomisiynu gwasanaethau drutach neu lai teilwredig, a gallai oedi wrth gael mynediad at gymorth therapiwtig arwain at gostau hirdymor uwch oherwydd cynnydd mewn anghenion.

### Manteision

6.4 Mae'r fframwaith presennol wedi ennill ei blwyf ac yn gyfarwydd i ddarparwyr, comisiynwyr a rheoleiddwyr, sy'n helpu i gynnal parhad a rhagweladwyedd ar draws y sector. Mae cadw'r system bresennol yn osgoi tarfu o ran pontio i system newydd ac yn dileu'r angen i ailhyfforddi staff neu ailddehongli diffiniadau ac esemptiadau newydd.

6.5 Mae'r gofyniad gorfodol i gofrestru gydag AGC yn sicrhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd ar gyfer pob darparwr, gan gynnwys y rhai sy'n cynnig gwasanaethau cwnsela i oedolion. Mae'r gofyniad hwn

yn cynnal safon gyson o ofal ac amddiffyniad ar gyfer unigolion agored i niwed yr effeithir arnynt gan fabwysiadu.

6. 6 Mae'r system bresennol yn gwahaniaethu rhwng darparwyr unigol a chorfforedig, sy'n cefnogi proses glir o neilltuo atebolrwydd a chydymffurfio â dyletswyddau statudol. Mae'r eglurder hwn yn helpu i sicrhau bod cyfrifoldebau yn cael eu deall a'u gorfodi'n briodol.

6. 7 Mae cofrestru gydag AGC yn darparu mecanwaith ar gyfer olrhain darpariaeth gwasanaethau, gan alluogi prosesau gwell ar gyfer casglu data a monitro perfformiad. Mae'r oruchwyliaeth hon yn helpu awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i gynnal trosolwg cynhwysfawr o'r gwasanaethau sydd ar waith a nodi bylchau yn y ddarpariaeth.

6. 8 Gall cadw gofynion cofrestru ar gyfer gwasanaethau cwnsela i oedolion atal darparwyr heb gymwysterau digonol neu'r rhai a gaiff eu monitro'n wael rhag cael mynediad i'r sector. Mae'n sicrhau bod gwasanaethau therapiwtig yn parhau o fewn amgylchedd rheoleiddiedig, sy'n arbennig o bwysig ar gyfer gofal sy'n ystyriol o drawma.

**Risgiau**

6.9 Bydd oedolion yr effeithir arnynt gan fabwysiadu, fel y rhai sy'n cael eu mabwysiadu, rhieni geni, a rhieni mabwysiadol, yn parhau i wynebu rhwystrau wrth gael mynediad at wasanaethau cwnsela a therapiwtig oherwydd gofynion cofrestru AGC. Mae'r cyfyngiad hwn yn cyfyngu ar y gronfa o weithwyr proffesiynol cymwys, yn enwedig y rhai nad ydynt yn rhan o sefydliadau mawr neu'r rhai sy'n gweithio'n annibynnol.

6. 10 Mae'r rheoliadau presennol yn golygu bod darparwyr unigol o dan gontractau awdurdod lleol yn esempt rhag cofrestru, ond nid partneriaethau neu gyrff corfforedig, hyd yn oed pan fyddant yn darparu gwasanaethau sy'n union yr un fath. Mae'r anghysondeb hwn yn creu dryswch a gall atal modelau gwasanaeth cydweithredol neu sefydliadol.

6. 11 Mae darpariaethau sy'n gorgyffwrdd yn Rheoliadau 2005 a Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019 yn creu heriau o ran dehongli i ddarparwyr a chomisiynwyr. Mae amwysedd mewn diffiniadau allweddol, fel “rhiant mabwysiadol”, ynghyd â therminoleg sydd wedi dyddio, fel “rhiant naturiol” yn rhwystrau pellach i eglurder a chydymffurfiaeth. Erbyn hyn, mae'r term “rhiant naturiol” yn cael ei ystyried yn amhriodol gan ei fod yn awgrymu hierarchaeth rhwng rhieni geni a rhieni mabwysiadol. Mae'r sector bellach yn defnyddio "rhiant geni," sy'n gliriach, yn niwtral, ac yn adlewyrchu arferion cynhwysol modern. Mae mynd i'r afael â'r anghysondebau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau tryloywder, cywirdeb a gweithredu effeithiol.

6. 12 Rhaid i ddarparwyr lywio prosesau cofrestru a chydymffurfio cymhleth, a all gymryd llawer o amser a llyncu adnoddau. Gall y baich hwn atal newydd-ddyfodiaid a lleihau arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau.

6. 13 Mae gwahaniaethau rhwng fframweithiau rheoleiddio Cymru a Lloegr yn cymhlethu'r gwaith o ddarparu lleoliadau a gwasanaethau trawsffiniol. Gall yr anghysondebau hyn oedi cefnogaeth i deuluoedd sy'n symud rhwng awdurdodaethau neu sy'n cael mynediad at wasanaethau ar draws ffiniau.

6. 14 Gall mynediad anghyson at ddarparwyr cofrestredig ar draws rhanbarthau arwain at anghydraddoldebau daearyddol o ran y cymorth sydd ar gael. Gall unigolion agored i niwed gael eu heffeithio'n anghymesur gan fylchau yn y gwasanaethau sydd ar waith.

**Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau 2019 a Rheoliadau 2005 a dirymu a disodli Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019 (yr opsiwn a ffefrir)**

6. 15 O dan yr opsiwn hwn, bydd y fframwaith ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn cael ei foderneiddio a bydd rheoliadau'n gweithio'n gydlynol gyda'i gilydd. Bydd y diwygiadau i Reoliadau 2019 yn cynnwys esemptiadau rhag cofrestru gydag AGC ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn perthynas â mabwysiadu i oedolion, ac ar gyfer unigolion, partneriaethau a chyrff corfforedig sy'n darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu o dan gontract gydag awdurdodau lleol neu wasanaethau mabwysiadu cofrestredig, gan wella hygyrchedd ac argaeledd gwasanaethau i deuluoedd mabwysiadol.

6.16 Bydd yr opsiwn hwn yn golygu dirymu a disodli Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019 fel bod y rheoliadau'n ategu ei gilydd ac yn gweithio'n gydlynol gyda'i gilydd. Bydd gweithredu'r ddwy set o reoliadau yn egluro'r gwahaniaeth rhwng gwasanaethau cymorth mabwysiadu rhagnodedig at ddibenion asiantaethau cymorth mabwysiadu o dan adran 8 o Ddeddf 2002 a gwasanaethau rhagnodedig a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru fel rhan o'r gwasanaeth a gynhelir ganddynt o dan adran 3(1) o Ddeddf 2002.

**Costau**

6. 17 Bydd angen gweithgareddau codi ymwybyddiaeth wedi'u targedu ar awdurdodau lleol a darparwyr i sicrhau eu bod yn deall yr esemptiadau newydd, y diffiniadau wedi'u diweddaru, a'r gofynion cydymffurfio. Bydd cyfathrebu a hyfforddiant clir yn hanfodol i gefnogi proses bontio ddidrafferth i'r fframwaith diwygiedig. Er mwyn cyflawni hyn, bydd gweminar a sesiynau hyfforddi yn cael eu darparu i godi ymwybyddiaeth

o'r newidiadau dan sylw, a fydd yn agored i ranbarthau mabwysiadu, Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol, ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb. Amcangyfrifir mai'r gost ar gyfer y sesiynau hyn fydd £3,400, a fydd yn cael ei thalu gan Lywodraeth Cymru. Bydd awdurdodau lleol a darparwyr yn wynebu pwysau gweithredol ychwanegol, gan gynnwys neilltuo amser staff i fynd i sesiynau, diweddaru prosesau mewnol, a sicrhau cydymffurfiaeth â'r fframwaith diwygiedig. Ni ellir meintioli'r costau cysylltiedig yn fanwl gywir ar hyn o bryd, gan y byddant yn amrywio yn dibynnu ar ffactorau fel argaeledd staff, maint y sefydliad, a graddfa'r newidiadau mewnol sydd eu hangen.

6. 18 Bydd darparwyr yn arbed amser ac adnoddau a dreuliwyd yn flaenorol ar lunio dogfennau cofrestru blynyddol, polisïau ac arolygiadau. Mae'r prosesau hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng darparwyr, gan ei gwneud hi'n anodd amcangyfrif faint o amser staff a arbedir, ond disgwylir i'r gostyngiad cyffredinol yn y baich gweinyddol fod yn sylweddol.

6.19 Gall cysondeb trawsffiniol gwell rhwng Cymru a Lloegr leihau oedi a dyblygu wrth gomisiynu gwasanaethau i deuluoedd sy'n symud rhwng awdurdodaethau. Fodd bynnag, bydd pontio i'r fframwaith newydd yn golygu bod angen diweddaru canllawiau statudol ar gost o £5,950, a fydd yn cael ei thalu gan Lywodraeth Cymru.

**Manteision**

6. 20 Mae cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i gofrestru gydag AGC ar gyfer gwasanaethau cwnsela i oedolion yn dileu rhwystr mawr i ddarparu gwasanaethau, gan alluogi mwy o weithwyr proffesiynol i gynnig cymorth i'r rhai sy'n cael eu mabwysiadu, rhieni geni, a theuluoedd mabwysiadol. Disgwylir i'r newid hwn gynyddu argaeledd, ymatebolrwydd a pharhad gofal therapiwtig i oedolion yr effeithir arnynt gan fabwysiadu.

6.21 Gall mynediad gwell at wasanaethau cwnsela i oedolion leihau dibyniaeth hirdymor ar wasanaethau cyhoeddus mwy dwys, megis ymyrraeth iechyd meddwl mewn argyfwng. Bydd cael gwared ar y rhwystr cofrestru hefyd yn caniatáu i oedolion mabwysiedig gael mynediad at gronfa ehangach o gwnselwyr, gan ymateb i unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau therapiwtig yn fwy effeithiol.

6. 22 Mae sicrhau cysondeb rhwng diffiniadau a gwasanaethau rhagnodedig ar draws Rheoliadau 2005, sy'n rhagnodi gwasanaethau cymorth mabwysiadu a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru fel rhan o'r gwasanaeth a gynhelir ganddynt, a Rheoliadau newydd Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu) (Cymru) 2026, yn dileu dyblygu a dryswch. Mae terminoleg fodern, megis disodli “rhiant naturiol” gyda “rhiant geni”, yn adlewyrchu'r arferion presennol ac

yn cefnogi iaith gynhwysol, gan wella'r ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau.

6. 23 Mae estyn yr esemptiadau rhag cofrestru i bartneriaethau a chyrff corfforedig sy'n darparu gwasanaethau o dan gontract yn symleiddio'r broses gydymffurfio i ddarparwyr. Bydd awdurdodau lleol hefyd yn elwa ar lai o gymhlethdod wrth reoli contractau a llai o amwysedd cyfreithiol o ran cymhwystra darparwyr.

6. 24 Mae sicrhau bod y rheoliadau yng Nghymru yn cyd-fynd â'r rhai yn Lloegr yn hwyluso proses fwy esmwyth ar gyfer lleoliadau trawsffiniol a chydgysylltu gwasanaethau. Mae'r cysondeb hwn yn cefnogi teuluoedd sy'n symud rhwng awdurdodaethau ac yn helpu i sicrhau parhad gofal ar draws ffiniau cenedlaethol.

6. 25 Mae cael gwared ar rwystrau rheoleiddiol diangen yn annog mwy o weithwyr proffesiynol a sefydliadau i ymuno â'r maes, yn enwedig darparwyr llai a sefydliadau yn y sector gwirfoddol. Mae hyn yn meithrin marchnad fwy amrywiol a gwydn o ddarparwyr, gan wella dewis ac arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau.

6. 26 Mae symleiddio prosesau cofrestru a chydymffurfio yn lleihau costau gweinyddol i ddarparwyr ac awdurdodau lleol. Gellir ailgyfeirio adnoddau felly tuag at ddarparu gwasanaethau rheng flaen yn hytrach na gorbenion gweinyddol.

6. 27 Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn adlewyrchu'r arferion presennol ac mae wedi'i chynllunio i fod yn haws ei dehongli a'i chymhwyso. Mae hyn yn sicrhau bod y fframwaith yn parhau i fod yn berthnasol ac yn hyblyg i fodelau gwasanaeth a dulliau therapiwtig sy'n esblygu.

**Risgiau**

6.28 Gall cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i gofrestru gydag AGC ar gyfer gwasanaethau cwnsela i oedolion leihau goruchwyliaeth ffurfiol o ddarparwyr sy'n darparu cymorth therapiwtig sensitif. Heb y gofyniad i gofrestru, mae risg y gallai ansawdd gwasanaethau a safonau diogelu amrywio, yn enwedig ymhlith darparwyr llai neu newydd.

6. 29 Er mai nod yr esemptiad yw gwella mynediad, gall ganiatáu'n anfwriadol i unigolion heb eu rheoleiddio neu heb gymwysterau digonol gynnig gwasanaethau i oedolion agored i niwed yr effeithir arnynt gan fabwysiadu. Gallai hyn wneud defnyddwyr gwasanaethau yn agored i ofal anghyson neu, mewn achosion prin, niwed os nad yw darparwyr yn destun gwiriadau cadarn. Gellir lliniaru'r risg hon drwy asiantaethau mabwysiadu ac awdurdodau lleol, a fydd yn parhau i gynnal gwiriadau cyn cyflogi cadarn, dilysu cymwysterau, a threfnu asesiadau diogelu o

dan drefniadau contractiol. Bydd y mesurau hyn yn cael eu cefnogi gan ganllawiau statudol wedi'u diweddaru a phroses fonitro barhaus i sicrhau bod darparwyr yn parhau i fod yn “addas i weithio” ac yn cadw at safonau proffesiynol. Bydd pontio i'r fframwaith newydd hefyd yn gofyn am ddiweddariadau i ganllawiau statudol, hyfforddiant i awdurdodau lleol a darparwyr, a chyfathrebu clir â rhanddeiliaid.

6.30 Efallai y bydd angen i ddarparwyr a chomisiynwyr adolygu contractau a chytundebau gwasanaeth i adlewyrchu'r esemptiadau a'r diffiniadau newydd. Gallai hyn arwain at gostau cyfreithiol ac ymdrech weinyddol, yn enwedig i bartneriaethau a chyrff corfforedig sy'n addasu i'r fframwaith newydd.

6. 31 Os na chaiff yr esemptiadau eu diffinio a'u cyfathrebu'n glir, mae risg y gall rhai darparwyr gymryd yn ganiataol eu bod yn esempt rhag cofrestru. Gallai hyn arwain at ddiffyg cydymffurfio neu anghydfodau ynghylch cyfrifoldebau rheoleiddiol.

6. 32 Efallai y bydd rhai rhanddeiliaid yn pryderu am gael gwared ar fesurau diogelu rheoleiddiol, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau therapiwtig. Efallai y bydd galwadau am fecanweithiau sicrhau ansawdd amgen i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal y tu allan i system gofrestru AGC.

**Casgliad ac Argymhelliad**

6.33 Argymhellir **Opsiwn 2** gan ei fod yn cynnig yr ateb mwyaf cynhwysfawr a chytbwys i'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru ar hyn o bryd. Drwy gael gwared ar rwystrau rheoleiddiol diangen, gwella mynediad at wasanaethau cwnsela i oedolion, ac egluro'r fframwaith deddfwriaethol, mae'r opsiwn hwn yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau cymesur, ymatebol a chynhwysol. Mae'n lleihau'r baich gweinyddol, yn gwella cysondeb trawsffiniol, ac yn moderneiddio'r derminoleg i adlewyrchu'r arferion presennol. Yn bwysig, mae'n gwneud hynny heb gyfaddawdu ar ansawdd gwasanaethau na diogelwch, gan y bydd gwiriadau contractiol cadarn, canllawiau statudol wedi'u diweddaru, a phroses fonitro barhaus yn sicrhau bod darparwyr yn parhau i fod yn gymwys a bod safonau'n cael eu cynnal. Mae'r mesurau hyn yn golygu mai Opsiwn 2 yw'r dewis mwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer gwella yn y tymor hir.

## 7. Asesiad Cystadleuaeth

7.1 Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gynnal fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Mae'r dadansoddiad yn dangos nad yw'r sector

gwasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru yn cael ei nodweddu gan grynodiad y farchnad. Nid oes gan unrhyw ddarparwr unigol fwy na 10% neu 20% o gyfran o'r farchnad, ac nid yw'r tri darparwr mwyaf gyda'i gilydd yn cyfrif am 50% neu fwy o'r farchnad. Mae'r sector yn cynnwys partneriaethau cyhoeddus rhanbarthol a sefydliadau gwirfoddol yn bennaf, gyda chyfranogiad cyfyngedig gan y sector preifat. Felly, ni ddisgwylir i'r rheoliadau arfaethedig gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth na deinameg y farchnad.

## 8. Adolygu ar ôl gweithredu

8.1 Bydd adolygiad ar ôl gweithredu yn cael ei gynnal i asesu a yw'r rheoliadau ar eu newydd wedd yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Bydd hyn yn cynnwys monitro nifer y ceisiadau, penderfyniadau paneli, a chydymffurfiaeth ag amserlenni, ochr yn ochr ag adborth gan randdeiliaid a dadansoddiad cyfreithiol. Bydd adolygiad cychwynnol yn cael ei gynnal o fewn 24 mis, ac yna proses fonitro flynyddol barhaus ac adolygiad llawn o fewn 3–5 mlynedd. Bydd canfyddiadau yn llywio unrhyw ddiweddariadau angenrheidiol i sicrhau bod y rheoliadau yn parhau i fod yn effeithiol, yn deg ac yn gyson ag amcanion polisi.